

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r Cabinet yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambur y Cyngor)**

**Fore Mawrth 15 Rhagfyr 2015 am 10.30am**

**Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 11 Rhagfyr 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 DADANSODDIAD ECONOMAIDD SYLFAENOL AR GYFER DE DDWYRAIN CYMRU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi gwybod i Aelodau am Ddadansoddiad Economaidd Sylfaenol ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

- 3 TONYSGUBORIAU – CYNLLUN TAI Â GOFAL YCHWANEGOL**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y gwaith sy'n cael ei gynnal i ddatblygu'r cynllun tai â gofal ychwanegol newydd yn Nhonysguboriau ac i gael sêl bendith ar gyfer polisi dyrannu a meini prawf cymhwysedd drafft ar gyfer gofal ychwanegol.

**Tudalennau 31 - 50**

- 4 AILGOMISIYNU CONTRACTAU GOFAL CARTREF.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio caniatâd y Cabinet i weithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ailgomisiynu contractau gofal yn y cartref.

**Tudalennau 51 - 56**

- 5 ARGYMHELLION PWYLLGOR CRAFFU - IECHYD A LLES**  
Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n nodi canfyddiadau ac argymhellion y 'Gweithgor Craffu Eiddo Gwag'.

**Tudalennau 57 - 110**

- 6 LLYFRGELL Y PORTH**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i aelodau am y cynllun arfaethedig i symud y gwasanaethau sydd ar gael yn Llyfrgell y Porth i Blaza'r Porth, lle'r bwriad yw sefydlu canolfan gymunedol gynaliadwy, sy'n cynnal amrediad o wasanaethau cyflenwol.

**Tudalennau 111- 116**

- 7 RhCT GYDA'N GILYDD – CEISIADAU MYNEGI DIDDORDEB / CRONFA GALLUOGI CYMUNEDOL.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi argymhellion y Grŵp Llywio Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol i Aelodau mewn perthynas â bwrw ymlaen â'r ceisiadau Mynegi Diddordeb a'r Gronfa Galluogi Cymunedol.

**Tudalennau 117 - 126**

- 8 RhCT GYDA'N GILYDD - CRONFA GWEITHREDU GYMUNEDOL.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y posibilrwydd o gyflwyno cynllun grantiau bach ar gyfer gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned dan ofal Cyngor Gwirfoddol y Sir, Interlink RhCT.

**Tudalennau 127 - 134**

**9 Llinell Waelod (Sylfaen) Treth y Cyngor 2016/17**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen y'n pennu'n ffurfiol Llinell Waelod Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2017 at ddibenion pennu treth a chadarnhau'r lefel o ostyngiad sy'n berthnasol i eiddo sydd i'w ystyried yn ail gartrefi, a'r rheiny sydd heb bobl yn byw dros y tymor hir a'r rheiny sydd heb gelfi ynddyn nhw.

**Tudalennau 135 - 140**

**10 GWASANAETH Y CRWNER**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n ceisio ymateb Aelodau i wahoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ateb i'w hymgyngoriad presennol ar y cynllun arfaethedig i uno ardaloedd y Crwner.

**Tudalennau 141 - 158**

**11 Y DIWEDDARAF YNGLŶN Â'R FARCHNAD GOFAL PLANT MEWN YMATEB I NEWIDIADAU I GYLLID AR GYFER ADDYSG FEITHRIN**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â marchnad gofal plant yn Rhondda Cynon Taf yn wyneb y newidiadau i ariannu addysg feithrin; ac i roi'r diweddaraf ar y Cynllun Gweithredu Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2015-16.

**Tudalennau 159 - 180**

**12 MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

